# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 30 Tachwedd 2016

Amser: 09.10 - 12.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3824

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Hefin David AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC |
| Tystion: | Meilyr Rowlands, Estyn<br>Claire Morgan, Estyn<br>Farrukh Khan, Estyn<br>Dr Jonathan Brentnall, Education Consultant<br>Phil Evans, Association of Directors and Social Services (ADSS)<br>Tanya Evans, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Gareth Rogers (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF (999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Michelle Brown a John Griffiths. Dirprwyodd Mike Hedges ar ran John Griffiths.

## 2 Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig - sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Estyn. Cytunodd Estyn i ddarparu nodyn ar ysgolion nad oedd yn dilyn arfer gorau o ran cefnogi disgyblion sipsiwn.

## 3 Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig - sesiwn dystiolaeth 2

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Jonathan Brentnall.

## 4 Ymchwiliad i ddarpariaeth eiriolaeth statudol - sesiwn dystiolaeth 3

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Cytunodd y ddwy gymdeithas i ddarparu proffil cyllideb tair blynedd ar gyfer gweithredu'r cynllun Eiriolaeth Genedlaethol.

## 5 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papur.

### 5.1 Llythyr at y Pwyllgor Busnes ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Adroddiad Drafft ar yr Ymchwiliad Gwaith Ieuenctid

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau.

## 8 Blaenraglen waith y Pwyllgor - cytuno ar yr ymchwiliad nesaf

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal rhywfaint o waith ar hyfforddiant athrawon, sef 'y 1000 diwrnod cyntaf', a chytunodd i barhau â'i waith ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.